

Beirniadaethau Creu Ap RHIF 353 - BI 6 ac iau

YSGOL CWMNEDD 353/1

Ap stori syml. Syniad cryf ond angen meddwl mwy am dyluniad gweledol a phrofiad y defnyddwyr. Rydw i'n hoffi'r syniad bod darllenwyr yn dewis llwybr y stori - mae rhyngweithio yn pwysig iawn er mwyn creu 'engagement'. Efallai bysa'r cymeriadau wedi gallu bod yn fwy 'diverse' - oedd na opsiwn bod yn creadigol gyda'r morwynion yn lle dewis 3 hogan wen? Ai stori ddim ond ar gyfer genod yw hon? Roedd o'r opsiynnau yn call - gwranddo, argraffu neu arbed y stori orffenedig.

353/2 YSGOL Y DDERI

Wnes i mwynhau chwarae'r gém yma. Mae lot o ymdrech wedi mynd mewn i'w datblygu. Roedd o'n hwyl osgoi'r cymeriadau ar sgrín, yn debyg i gém iard ysgol. Byswn i wedi hoffi gweld cymeriadau 'drwg' gwahanol yn rhedeg ar ól Mr Urdd. Doedd y system sgorio ddim yn ddigon eglur - bydde fo'n dda cynnwys sain er mwyn pwyslwisio'r digwyddiadau fel cael dy dal neu llwyddo cyrraedd y clych. Gydag ychydig mwy o ddatblygu bydd hwn yn gém da iawn.

353/3 HOGAN DDRWG

Mae'r gém angen mwy o ddisgrifiad a llawer mwy o ddatblygiad. Dydy o ddim yn eglur beth yw pwrpas yr ap.

354/4 Y DDRAIG GOCH

Rydw i'n hoff iawn o'r 'concept' y gém. Mae gemau yn ffordd ardderchog o ddysgu sgiliau a gwersi bywyd pwysig i blant ac roedd y syniad o croesi'r lón yn saff er mwyn cyrraedd y maes yn un dda. Byddwn i wedi hoffi cael chwarae y gém wedi ei cwblhau.

353/5 YSGOL LLANIDLOES

Gém addawol iawn, yn debyg i Pacman. Roeddwn i'n hoff iawn o'r defnydd sain. Mae'n pwysig cynnig cyfarwyddiadau Cymraeg neu dwyieithog ar gemau. Angen mwy o waith dayblygu, ond byddwn i'n hoffi chwarae'r gem orffenedig.

356/6 YSGOL LLANIDLOES

Dechreuad addawol i'r gém. Roeddwn i'n hoffi'r gwaith animeiddio ac yn gweld coesau Mistar Urdd yn symud.

353/7 MELLTEN

Gem syml ond hwylus. Roedd hi'n braf cael gem sydd yn cael ei esbonio'n glir gyda chyfarwyddiadau Bysa effeithiau sain yn ychwanegiad gwerthfawr i'r gem.

CANLYNIAD

1. 353/2 YSGOL Y DERI
2. 353/1 MELLTEN
3. 354/4 Y DDRAIG GOCH

RHIF 354 CREU AP BL 7,8,9

354/1 Ap Owen Francis

Rydw i'n wrth fy modd gyda'r defnydd o gwasanaethau lleoliad yn yr ap yma. Mae'r datblygwr yn amlwg yn gyfarwydd gyda'r maes ac yn deall y pwysicrwydd cynnig ap ar gyfer sawl plattform. Mae'r strwythyr yn clir ac yn hawdd i'w deall. Mae'r defnydd o systemau nafigeiddio dyfeisiadau symmudol yn dda hefyd.

354/2 Mr Urdd

Ap cwis syml gyda photensial da. Mae'r ap yn hyblyg a fysa'r ap yn gallu cael ei addasu ar gyfer sawl pwnc. Mae na le am ap cwis iaith Cymraeg, a fysa hon yn gallu llenwi'r bwlch. Ystyried cynnwys cyfryngau amlgyfrwng er mwyn cynnig amrywiaeth i'r defnyddwyr a chymryd maintais o galluoedd technegol dyfeisiadau symudol.

CANLYNIAD

1. 354/1 Ap Owen Francis
2. 354/2 Mr Urdd

355 Creu Ap Bl 10 - 19

355/1 JEFF

Rydw i'n hoff iawn o'r syniad i defnyddio ap er mwyn helpu pobl gyda dementia. Dydy hi ddim yn glur pam mae'r syniad yma yn gweithio gwell fel ap na gwefan, sydd yn mwy hyblyg yn ôl dewis o dyfeisiadau symudol. Mae angen i strwythyr bod yn glir ac yn syml, yn enwedig wrth ystyried y ddefnyddwyr targed.

355/2 LLWYNI

Mae'r datblygwyr yn amlwg wedi dysgu lot am dementia a'r ffordd mae'r ap yn gallu helpu'r pobl sydd yn dioddef. Rydw i'n hoffi'r syniad o ddefnyddio lluniau i helpu'r atgof, a sain er mwyn clywed yr iaith. Efallai bydder ap yn gweithio yn union mor dda fel gwefan.

355/3 ARTHUR

Dyluniad deniadol ar gyfer ap sillafu syml. Rydw i'n hoff o'r elfennau graffeg ond efallai bydd angen mwy o amrywiaeth o sgrinau er mwyn cadw diddordeb defnyddwyr cyfoes soffistigedig.

355/4 BRANWEN

Mae na lot o gwaith wedi mynd mewn i manylion a ddatblygiad strategol y gem yma. Rydw i'n hoff o'r defnydd o'r syniad bod rhywbeth yn digwydd hyd yn oed pan chi ddim yn chwarae, yn debyg i Farmville a gemau debyg. Mae hwn yn anog y chwaraewr i ddod nol tro ar ol tro. Mae'r asedau a chymeriadau Cymreig yn gwneud hon gem sydd gyda awyrgylch Cymraeg go iawn. Mae'r elfennau sydd yn galluogi'r chwaraewr bod yn cystadleuol gyda'i ffrindiau yn dda hefyd. Mae'r dyluniad yn diddorol ac unigryw.

355/5 GWERN

Gwaith graffeg ardderchog. Mae'r dylunwr wedi ystyried y defnyddiwr wrth creu graffeg syml a deniadol. Mae strategaeth a strwythur y gem yn syml iawn - ateb cwestiwn er mwyn dilyn llwybr. Mae hwn yn ffordd da i anog rhywun dysgu iaith ond mae angen gwobr gwerth cael ar diwedd y taith. Bysa elfen cystadleuol yn erbyn eraill yn helpu efallai.

CANLYNIAD

1. BRANWEN 355/4

2. GWERN 355/5

3. ARTHUR 355/3

356 Creu Ap dan 25 oed

356/1 BENDIGEIDFRAN

Gwaith dylunio ardderchog. Mae'r dyluniad yn glir, syml ond yn deniadol ar gyfer sgrinau bach. Byddwn ni wedi gwerthfawrogi disgrifiad o sut mae'r ap yn gweithio yn technegol. Ydy rhywun yn clicio'r 'arrows' er mwyn symud o chwith i'r dde, neu ydy o'n bosib i ddim ond yn 'tiltio'r' dyfais er mwyn nafigeiddio'r dwr? Bysa strategaeth mwy cymleth yn helpu cadw diddordeb y defnyddwyr.

356/2 GWENYNEN

Mae'r datblygwr y gem yma wedi rhoi lot o meddwl at strategaeth a ddatblygiad y gem. Doeddwn i ddim yn hoff iawn o'r ffont sydd yn annodd i ddarllen ar sgrinau fach. Mae'r cymlechod y system sgorio yn helpu cadw diddordeb defnyddwyr - debyg i Scrabble. Hefyd mae'r rhyddhad o lefelau newydd ar ôl cwblhau lefelau yn dda. Byddwn i wedi hoffi gweld elfen cystadleuol gyda chwaraewyr eraill - rhestr sgoriau gorau ffrindiau er engraifft.

356/3 MATHOLWCH

Roedd hwn y ffordd diddorol o trinio syniad cyfarwydd, hynny yw, ateb cwestiwn neu silllaffu gair er mwyn cario ymlaen gyda'r taith. Ond yn y cas yma, mae'r taith yn mynd lawr o dan ddaear yn lle ymlaen dros tir. Mae hwn yn adlewyrchu hanes diwydiant Cymru, a mae na chyfle defnyddio'r amgylchedd hon er mwyn dysgu hanes ar yr un amser. Mae defnydd o'r ddraig fel ased hefyd yn cynnig potensial i Cymreigio'r gem. Roeddwn i'n gweld y dyluniad ychydig yn rhybgymleth ar sgrin ar gyfer profiad defnyddwyr da. Hefyd, mae angen elfen cystadleuol allanol - cymharu sgoriau gydag eraill er engraifft.

356/4 PWYLL

Roeddwn i'n hoff iawn o'r datblygiad creadigol o byddychmygol Yr Urdd, gyda trainyrs Urdd-Max, ceiniogau Urdd ac elfennau map Urdd-aid. Roedd y dyluniad yn da - yn glir ac yn deniadol. Rydw i'n hoffi'r posibilrwydd o uwchgraddio Mr Urdd. Mae'r gem ei hyn yn syml iawn ac yn debyg i sawl gem arall poblogaidd. Mae angen elfen o cystadleuaeth gyda defnyddwyr eraill neu o leiaf rhestr o sgoriau hanesyddol.

CANLYNIAD

1. MATHOLWCH 356/3
2. BENDIGEIDFRAN 356/1
3. GWENYNEN 356/2

Rhif 357

Cystadleuaeth Creu Gwefan bl 6 ac iau Unigol neu Grŵp

Wrth chwilio am ennillydd, yr oeddwn yn edrych i ddechrau am argraff y dudalen gartref arnaf wrth imi ei gweld am y tro cyntaf, gan obeithio am dudalen drawiadol, gyda hierarchiaeth bendant (dewis ffont, maint ysgrifen, lliw a chynllun) yn denu fy llygad at y wybodaeth yn y drefn gywir, fel bod y prosesu'n rhwydd i'r darllennydd. Wrth lywio fy ffordd drwy wefan pob ymgeisydd, fe chwiliwn am wefan oedd yn syml i'w defnyddio, am wreiddioldeb syniadau ac elfennau technegol difyr i gynnal diddordeb, yn ogystal â digon o gynnwys tecst a llun, a hynny mewn Cymraeg graenus. Cafwyd 4 ymgais dda iawn i law.

Roedd hon yn gystadleuaeth anodd iawn i'w beirniadu gan fod pob gwefan yn rhagori mewn gwahanol agweddau. Roedd golwg gyntaf un wefan yn arbennig o effeithiol yn ei symlrwydd a rhwyddineb y llywio, ond hoffwn fod wedi gweld elfennau bach ychwanegol arni i gynnal diddordeb, ee lle i glicio i weld fideo neu glywed sain. Roedd eraill wedi defnyddio ffilm gefndirol i greu diddordeb, cerddoriaeth i atgyfnerthu, a ffyrdd diddorol o gyflwyno'r wybodaeth. Weithiau byddai'r lluniau cefndir symudol yn gwneud y darllen yn anodd, gan dynnu sylw diangen. Roedd un arall yn llawn o nodweddion diddorol a chlyfar, ee pol piniwn a graff i ddangos effaith y bleidlais, lle i ysgrifennu barn a'i anfon, lincs i youtube a llawer mwy! Yn anffodus roedd argraff gyntaf ddryslyd i'r wefan honno, gyda gwybodaeth bwysig mewn ffont mân tra roedd y dudalen fel rhyw lobsgows. Roedd cynnwys hon yn llawn gwallau ieithyddol ac angen aildrafftio a chaboli, ond gan y crewr yma y mae'r addewid mwyaf gyda'i syniadau creadigol.

Mae'r wobr gyntaf i'r ymgeisydd sydd wedi creu gwefan sydd fwyaf cyson drwyddi draw, ond mae gan y 3 ymgeisydd arall wir addewid i'r dyfodol, ac mi fwynheais bob un yn fawr.

1. Ysgol y Frenni bl 5 a 6
2. Gwyrddlas y Dderi
3. Jack Gleeson

a chanmoliaeth hefyd i Ysgol y Frenni bl 3 a 4

Rhif 358

Cystadleuaeth Creu Gwefan bl 7, 8 a 9 Unigol neu Grwp

Wrth chwilio am ennillydd, yr oeddwn yn edrych i ddechrau am argraff y wefan arnaf wrth imi ei gweld am y tro cyntaf, gyda hierarchiaeth bendant i'r dudalen gartref (dewis ffont, maint ysgrifen, lliw a chynllun) yn denu fy llygad at y wybodaeth yn y drefn gywir, fel bod y prosesu'n rhwydd i'r darlennydd. Wrth lywio fy ffordd drwy wefan pob ymgeisydd, fe chwiliwn am wefan oedd yn syml i'w defnyddio, am wreiddioldeb syniadau ac elfennau technegol difyr i gynnal diddordeb, yn ogystal â digon o gynnwys tecst a llun, a hynny mewn Cymraeg graenus. Cafwyd dwy ymgais.

Gwybodaeth drylwyr am chwaraeon dwr oedd gan un wefan, yn cynnig pob gwybodaeth angenrheidiol i unrhyw un fyddai awydd dechrau ymddiddori yn y maes, yn cynnwys linciau i fapiau (a fyddent wedi bod yn fwy effeithiol fyth pe gallem glicio arnynt i'w gweld ar raddfa fwy), linciau i siop gwerthu offer ayb. Roedd lle i ychwanegu mwy o gynnwys eto i gorff y wefan, ee gwybodaeth ddifyr am bobl sydd wedi cyrraedd uchelfannau yn y maes, linciau youtube i ddangos y grefft efallai? Roedd hi'n wefan hawdd iawn i'w llywio, yn syml ac yn ateb yr angen. Roedd yr ail wefan yn cynnig ffordd wreiddiol tu hwnt o gyflwyno hanes dwy chwedl, nid drwy ddarllen y straeon, ond drwy ymateb i Gelert y ci yn sgwrsio, a minnau'n dewis un o dri ateb i gael symud i ran nesaf y stori. Roedd y syniad yn wych, ond hyd yma, nid yw'r ymgeisydd wedi caboli digon ar ei wefan, ac nid yw'n barod i'r darlennydd eto. Yn anffodus hefyd, wrth glicio ar eicon stori Cantre'r Gwaelod, fe awn ol i stori Gelert eto. Teimlaf hefyd nad yw stori Gelert yn ddigon hawdd ei deall drwy gyfrwng y 'sgwrs' rhwng Gelert a ni, ac er mor ddoniol yw'r ddeialog, mae angen rhywbeth ychwanegol i'n denu i ddal ati hyd ddiwedd y stori (gêm ryngweithiol efallai?) Yn sicr, gyda thipyn o greu a chaboli eto, gallai hon ddatblygu i fod yn wefan lwyddiannus.

Mae'r wobwr gyntaf i'r ymgeisydd sydd wedi creu gwefan lawn, ddifyr a deniadol, ac mae syniad cychwynnol da gan yr ail, ond mae llawer o waith datblygu a mireinio eto cyn iddi fod yn barod i'w chyflwyno fel gwefan gyhoeddus.

1. Gwion Rhisiart
2. Gobaith X